CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes/
Director Lifelong Learning

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Parc Mownt
Ffordd Glanhwfa
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7EY

ffôn / tel: (01248) 752900 ffacs / fax: (01248) 724264

Gofynnwch am - Please ask for: Mr Gareth Jones

ffôn / tel (01248) 752947 ffacs / fax (01248) 724264

E-Bost - E-mail: dgjed@anglesey.gov.uk
Ein Cyf - Our Ref. DGJ/dho
Eich Cyf - Your Ref.

24/03/2014

Annwyl Bennaeth

**<u>CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH 2014 - 2017.</u>**

Ers nifer o flynyddoedd mae gan yr Awdurdod nifer o gytundebau lefel gwasanaeth gyda chwi fel ysgolion ac mae nifer ohonynt wedi dod i ben eleni, 2014. Y rhai sydd angen eu hadnewyddu yw'r canlynol:-

**1) <u>Adnoddau Dynol</u>**

Mae tair rhan i'r cytundeb yma sef:-

i) Gwasanaeth Personél
ii) Gwasanaeth Recriwtio a Hysbysu
iii) Cynllun Absenoldebau (Cynradd)

Mae'n hanfodol eich bod yn prynu i mewn i'r Gwasanaeth Personél a'r Gwasanaeth Recriwtio a Hysbysebu. Argymhellir yn gryf iawn eich bod yn cytuno i'r cynllun absenoldeb neu bydd goblygiadau ariannol sylweddol ar yr ysgol. Yn y gorffennol mae'r cynllun yn cynnwys holl athrawon yr ysgol a dewis yr ysgol oedd cynnwys cymorthyddion. Erbyn hyn mae niferoedd cymorthyddion wedi cynyddu'n sylweddol, ac yn parhau i gynyddu, ac felly mae'r Awdurdod yn cynnwys holl cymorthyddion yr ysgol yn y cynllun.

Mae nifer o benaethiaid wedi gofyn i ni ystyried cynyddu'r ad-daliad yn achosion absenoldeb athrawon. Ni fydd hyn yn digwydd go gyfer Ebrill 2014, ond ceir trafodaeth yn ystod y flwyddyn i ddod ar yr awgrym yma gyda chwi fel ysgolion. Mae'r cynllun yn talu o'r diwrnod cyntaf o salwch yn achos salwch athrawon ond gyda'r cymorthyddion bydd hyn o'r trydydd diwrnod.

Bydd y cytundeb yma'n rhedeg am dair blynedd, Ebrill 2014 - Mawrth 2017, heblaw am y Cynllun Absenoldebau sydd am y flwyddyn 14/15 ac i'w adolygu'n flynyddol.

**2) <u>Cyngor Cyllidol</u>**

Mae'r Awdurdod o'r farn bod ymrwymo i'r gwasanaeth yma'n hanfodol i effeithiolrwydd yr ysgol.

Bydd y cytundeb yma'n rhedeg am dair blynedd, Ebrill 2014 - Mawrth 2017.

3) **Cefnogaeth weinyddol (drwy wasanaeth cymorthyddion SIMS)**

Mae pedair rhan i'r cytundeb yma sef:-

i) Gwasanaeth Cefnogi Gwybodaeth Disgyblion
ii) Gwasanaeth Archebu, Prosesu Taliadau ac Adrodd ar Wariant.

Eto, mae'n hanfodol ymrwymo i'r gwasanaethau uchod. O ran Gwasanaeth Archebu, Prosesu Taliadau ac Adrodd ar Wariant mae naw ysgol yn gweinyddu hyn yn lleol o fewn yr ysgol. Dylai'r naw ysgol yma peidio ag ymrwymo i'r cytundeb uchod o Ebrill 2014.

Os oes unrhyw ysgol arall am symud i brosesu archebion a thaliadau yn fewnol yna gallent roi eu henwau ymlaen i'r Awdurdod (drwy'r ffurflen CLG2) ac wedyn trefnir hyfforddiant a chefnogaeth iddynt. Yn y cyfamser byddent yn parhau i ymrwymo i'r cytundeb gyda'r Awdurdod.

Y gwasanaethau eraill yw :-

iii) Gwasanaeth Cefnogi Gweinyddol Dogfennaeth Sylweddol
iv) Gwasanaeth Cefnogi Gweinyddol - Mân Dasgau

Bydd y cytundeb yma'n rhedeg am dair blynedd, Ebrill 2014 - Mawrth 2017.

4) Gwasanaeth Archifau ac Amgueddfeydd Ysgolion
5) Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion

Mae nifer fawr o ysgolion yn gweld gwerth i'r cytundebau yma gan eu bod yn cynnig profiadau a gweithgareddau hanfodol i'r disgyblion.

Bydd y cytundebau yma'n rhedeg am dair blynedd, Ebrill 2014 - Mawrth 2017.

**Gofynnir i chwi ystyried yn ofalus pa gytundebau lefel gwasanaeth mae'r Corff Llywodraethu yn dymuno tanysgrifio iddynt gan gwblhau Ffurflen CLG1 a'i ddychwelyd erbyn diwedd mis Ebrill 2014. Mae'r cytundebau lefel gwasanaeth uchod i'w gweld ar wefan "Addysg Môn".**

**Yn ogystal gofynnir i chwi gwblhau Ffurflen CLG2, o fewn CLG1, fel y gall yr Awdurdod gasglu gwybodaeth am drefniadau a bwriadau'r ysgolion mewn gwahanol feysydd.**

Mae cytundebau eraill gan yr ysgol, ac sydd yn cael eu nodi o fewn cyllideb yr ysgol, a chyflwynir y wybodaeth ganlynol er eich sylw.

a. Cerdd. Mae'r cyllid yma i ddefnydd yr ysgol ac mae llawer ohonoch yn dod i gytundeb gyda chwmni William Mathias.

b. Cynnal Tiroedd. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gytundeb gyda chwmni Glendale tan 2018.

c. Offer cynnal tân. Mae'r cyllid yma i ddefnydd yr ysgol ac mae nifer o gwmnïau'n gwasanaethu'r ysgolion.

d. Glanhau. Mae'r gwasanaeth yma'n gytundeb rhwng yr Adran Dysgu Gydol Oes a'r Adran Eiddo ac yn weithredol tan 2015. Anelir i'w adolygu yn ystod 14/15.

e. Cynnal a Chadw (Rheolaeth Leol) Mae hanner y cyllid yma i ddefnydd yr ysgol a'r Awdurdod, drwy'r Adran Eiddo, yn defnyddio'r gweddill ar adeilad yr ysgol.

f. Cynnal a Chadw (Ariannu Teg). Mae'r cyllid yma o dan reolaeth y Cyngor. Hwn yw'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal a Thrwsio ac sydd yn rhan o Gytundeb Partneriaeth 2013 ac yn weithredol tan 2017. (Atgoffir chwi o'r angen i ddanfon y daflen ymateb i'r Awdurdod yn fuan.)

g. Cinio Ysgol. Mae'r cyllid yma o dan reolaeth y Cyngor ac yn darparu gwasanaeth arlwyo Caterlink.

h. CYNNAL. Mae Cwmni CYNNAL wedi cysylltu gyda chwi'n uniongyrchol gan gyflwyno cytundeb hyd at 2016.

i. Anghenion Arbennig. Bydd y cytundeb yma'n cael ei rannu gyda'r wybodaeth cyllido o dan drefniadau datganoli cyllideb integreiddio.

Yn gywir,

Gareth Jones
Swyddog Addysg